Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

# Ysgol Bro Cinmeirch

# Polisi Anghenion Gofal Iechyd

Dyddiad Cymeradwyo: 12.07.23
Dyddiad Adolygiad: Haf 2025

Llofnodwyd: S Owens (Cadeirydd y Llwyodraethwyr)

# Polisi Anghenion Gofal Iechyd

Er pwrpas y polisi hwn mae'r term 'ysgol' yn cyfeirio at feithrinfa, ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig, yn ogystal â unedau atgyfeirio disgyblion (UAD).

| | |
|---|---|
| Enw'r Ysgol | Ysgol Bro Cinmeirch |
| Cyfeiriad | Ysgol Bro Cinmeirch,<br>Llanrhaeadr,<br>Dinbych,<br>LL16 4NR |
| Rhif Ffôn | 01745 890347 |
| E-bost | bro.cinmeirch@denbighshire.gov.uk |
| Llofnodwyd (Pennaeth) | F Jones |
| Gwybodaeth am y polisi hwn i rieni/ gofalwyr | Gwefan Ysgol |

***I'w lenwi gan Wasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych:***

| | |
|---|---|
| Datblygwyd y polisi gan | CSDd GAP |
| Dyddiad y mabwysiadwyd y polisi gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant JMT | 10/06/2017<br>03/12/2019 |
| Dyddiad y cyflwynwyd y polisi gwreiddiol i ysgolion Sir Ddinbych | 13/06/2017 |
| Rhif y fersiwn a dyddiad | Fersiwn 3, Medi 2019 |
| Fersiwn wedi'i ddatblygu gan | CSDd GAP |
| Dyddiad Adolygu Blynyddol | Medi 2021 |
| Asesiad lles wedi'i gwblhau a'r dyddiad | 01/06/2017<br>Rhagfyr 2019 |

**Adolygiad Polisi – newidiadau ym mis Hydref 2019**

| | |
|---|---|
| | Tynnwyd y dudalen gynnwys. |
| 1.2.2 | Ychwanegwyd:<br><br>'Porth Plant a Theuluoedd'. |
| 1.3.2 | Ychwanegwyd dau bwynt:<br><br>• 'Canllawiau ar ddefnyddio awto-chwistrellwyr adrenalin mewn argyfwng mewn ysgolion yng Nghymru.'<br>• 'Polisi gofal personol a mynd i'r toiled i ysgolion Sir Ddinbych.' |
| 1.4.1 | Ychwanegwyd:<br><br>'adolygwyd y polisi yn 2019'. |
| 6.1.1 | Newidiwyd:<br><br>'Deddf Diogelu Data 1998' i 'Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol/ Deddf Diogelu Data 2018'. |
| 6.1.4 | Newidiwyd:<br><br>'Deddf Diogelu Data 1998' i 'Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol/ Deddf Diogelu Data 2018' a diweddaru'r ddolen i'r we.<br><br>A, newidiwyd:<br><br>'Er enghraifft: rydym yn defnyddio hysbysfwrdd yn yr ystafell staff i arddangos gwybodaeth ar anghenion iechyd risg uchel i ddisgyblion, tystysgrifau a swyddogion cymorth cyntaf, gweithdrefnau brys ayyb. *Nodwch nad yw pob aelod o staff yn defnyddio'r ystafell staff, gallai maint eich ysgol effeithio ar y ffordd hon o rannu gwybodaeth a'i wneud yn anymarferol, a dylid ystyried hawl disgyblion i gael preifatrwydd drwy'r amser.*<br><br>*I:*<br><br>'Er enghraifft: arddangos yr wybodaeth mewn modd priodol ond dull sydd ddim yn tynnu sylw e.e. Defnyddio hysbysfwrdd yn yr ystafell staff i arddangos gwybodaeth ar anghenion iechyd risg uchel i ddisgyblion, tystysgrifau a swyddogion cymorth cyntaf, gweithdrefnau brys ayyb. *Sylwch nad yw pob aelod o staff yn defnyddio'r ystafell staff, gallai maint eich ysgol effeithio ar y ffordd hon o rannu gwybodaeth a'i wneud yn anymarferol, a dylid ystyried hawl disgyblion i gael preifatrwydd drwy'r amser.* Er enghraifft a yw'r cyhoedd yn cael mynediad i'r ystafell staff ac yn gweld yr hysbysfwrdd? |
| 7.1.1 | Newidiwyd:<br><br>'Deddf Diogelu Data 1998' i 'Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol / Deddf Diogelu Data 2018'. |

| | |
|---|---|
| 7.1.2 | Newidiwyd:<br><br>'Deddf Diogelu Data 1998' i 'Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol / Deddf Diogelu Data 2018'. |
| 9.5.2 | Ychwanegwyd bwynt newydd:<br><br>'rhoddir ystyriaeth i gludo meddyginiaeth ar sail pob achos.' |
| 11.1.6 | Ychwanegwyd hwn at ddiwedd y frawddeg:<br><br>'er enghraifft gall staff gael hyfforddiant ar y cyflyrau meddygol mwyaf cyffredin'. |
| 12.1.2 | Ychwanegwyd bwynt ychwanegol, sydd yn dod i 12.1.2 yn awr:<br><br>'Dylai'r polisi rheoli anghenion gofal iechyd a phob atodiad fod yn berthnasol i'r trip ysgol yn yr un ffordd a fyddai yn yr ysgol, mae hyn hefyd yn cynnwys adran 13.17 ynghylch meddyginiaeth heb bresgripsiwn.' |
| 12.1.3 | Newid 12.1.3 gwreiddiol (sydd yn 12.1.4 bellach):<br><br>'Bydd yr holl staff sy'n cefnogi taith / ymweliad preswyl yn cael eu hysbysu o anghenion gofal iechyd y plentyn, gan gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a pharchu hawl y disgybl i breifatrwydd. Byddant yn derbyn yr wybodaeth sy'n ofynnol i sicrhau bod staff yn gallu darparu profiad cyfartal ar gyfer y disgybl.  Efallai y bydd yr wybodaeth yn cynnwys materion iechyd a diogelwch, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gefnogaeth ychwanegol, gan gynnwys meddyginiaeth ac offer gofynnol.<br><br>I:<br><br>Bydd yr holl staff sy'n cefnogi taith / ymweliad preswyl, gan gynnwys unrhyw staff a gyflogir gan Ddarparwr Annibynnol sydd yn darparu'r gweithgaredd hwn yn ystod y daith/ ymweliad preswyl yn cael eu hysbysu o anghenion gofal iechyd y plentyn, gan gydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol / Deddf Diogelu Data 2018 a pharchu hawl y disgybl i breifatrwydd. Byddant yn derbyn yr wybodaeth sy'n ofynnol i sicrhau bod staff yn gallu darparu profiad cyfartal ar gyfer y disgybl.  Efallai y bydd yr wybodaeth yn cynnwys materion iechyd a diogelwch, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gefnogaeth ychwanegol, gan gynnwys meddyginiaeth ac offer gofynnol. |
| 13.6.9 | Newidiwyd:<br><br>'polisi gofal personol' i gynnwys hyperddolen i bolisi Sir Ddinbych. |
| 13.6.13 | Ychwanegwyd pwynt newydd:<br><br>'Dos cyntaf – argymhellir nad yw'r dos cyntaf o unrhyw feddyginiaeth newydd (ar wahân i feddyginiaeth brys) yn cael ei weinyddu gan yr ysgol rhag ofn bod effeithiau andwyol'. |

| | |
|---|---|
| 13.15 | Ychwanegwyd:<br><br>'ac anaffylacsis' |
| 13.15.1 | Uno 13.15.1 gwreiddiol a 13.15.2 i fod yn:<br><br>'Bydd caniatâd i ddisgyblion ddefnyddio'r anadlydd mewn argyfwng yn cael ei geisio ar wahân yn unol â chanllaw Llywodraeth Cymru.' |
| 13.15.2 | Newid i:<br><br>'Bydd caniatâd i ddisgyblion ddefnyddio'r anadlydd mewn argyfwng yn cael ei geisio ar wahân yn unol â chanllaw Llywodraeth Cymru.'<br><br>Gyda:<br><br>'Canllaw ar y defnydd o awto-chwistrellwyr adrenalin mewn argyfwng mewn ysgolion yng Nghymru (https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/171025-guidance-on-the-use-of-emergency-aais-en.pdf) yn nodi bod gan ysgolion gyda chaniatâd i brynu, cadw a defnyddio awto-chwistrellwyr adrenalin mewn argyfwng mewn ysgolion. Bydd polisi ar wahân yn cael ei ysgrifennu.' |
| 13.17 | Newidiwyd:<br><br>'Meddyginiaeth nad ydyw ar bresgripsiwn (e.e. dros y cownter, homeopathi)'<br><br>I:<br><br>'Meddyginiaeth nad ydyw ar bresgripsiwn (e.e. dros y cownter, clefyd y gwair, homeopathi)' |
| 13.17.1 | Newidiwyd:<br><br>13.17.1 Gall rhai ysgolion ddewis cadw meddyginiaeth sydd heb ei roi ar bresgripsiwn (ee paracetamol).<br><br>13.17.2 Fe allai fod yna adegau pan fod angen y feddyginiaeth yn annisgwyl yn ystod y dydd.<br><br>Os bydd hyn yn digwydd a chyn belled ag y derbynnir caniatâd ysgrifenedig gellir rhoi'r feddyginiaeth e.e. cadarnhad ar e-bost a rhaid cwblhau atodiad 2 a'i ddychwelyd i'r ysgol cyn gynted ag y bo modd.<br><br>13.17.3 Mae'r broses ar gyfer meddyginiaeth nad ydyw ar bresgripsiwn yr un fath â phob meddyginiaeth arall; ond bydd yn cael eu trin fesul achos. |

| | |
|---|---|
| | 13.17.4 Ni chaniateir i ddisgyblion gario meddyginiaeth nad ydyw ar bresgripsiwn yn yr ysgol oni bai y ceir caniatâd ymlaen llaw (atodiad 2).<br><br>I:<br><br>13.17.1 Gall ysgolion ddewis roi meddyginiaeth heb bresgripsiwn ond mae'n rhaid i'r broses o weinyddu fod yr un fath â'r feddyginiaeth gyda phresgripsiwn h.y. cwblhau atodiad 2. Dylai unrhyw feddyginiaeth heb bresgripsiwn ei ddarparu gan y rhiant/ gofalwr i'r ysgol mewn cynhwysydd/pecyn heb ei agor.<br><br>13.17.2 Ni chaniateir i ddisgyblion gludo meddyginiaeth nad ydyw ar bresgripsiwn yn yr ysgol oni bai y ceir caniatâd ymlaen llaw (atodiad 2).<br><br>13.17.3 NI DDYLAI ysgolion gadw eu cyflenwad eu hunain o feddyginiaeth i roi i ddisgyblion. |
| Atodiad 2 | Ychwanegwyd hyn ar y dechrau:<br><br>Mae'r holl rieni wedi cael copi o hysbysiad preifatrwydd yr ysgol sydd yn amlinellu sut y prosesir gwybodaeth. Mae'r ysgol yn dibynnu ar ganiatâd i brosesu'r data mewn perthynas â'r Polisi Rheoli Anghenion Gofal Iechyd, fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau rydym yn dibynnu ar seiliau tasg cyhoeddus i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau diogelu perthnasol.<br><br>Newid y pedwerydd pwynt bwled yn yr adran caniatâd rhieni:<br><br>• Rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw darparu cyflenwad newydd o feddyginiaeth i'r ysgol a chasglu meddyginiaeth sydd wedi pasio'r dyddiad neu heb ei defnyddio.<br><br>I:<br><br>• Rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw darparu/ailgyflenwi cyflenwad newydd o feddyginiaeth i'r ysgol drwy roi'r feddyginiaeth i aelod o staff yr ysgol a chasglu meddyginiaeth sydd wedi pasio'r dyddiad neu heb ei defnyddio. |
| Atodiad 3 | Ychwanegwyd hyn ar y dechrau:<br><br>'Mae'r holl rieni wedi cael copi o hysbysiad preifatrwydd yr ysgol sydd yn amlinellu sut y prosesir gwybodaeth. Mae'r ysgol yn dibynnu ar ganiatâd i brosesu'r data mewn perthynas â'r Polisi Rheoli Anghenion Gofal Iechyd, fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau rydym yn dibynnu ar seiliau tasg cyhoeddus i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau diogelu perthnasol.' |
| Atodiad 10 | Ychwanegwyd Atodiad 10: |

| | |
|---|---|
| | Cofnod o’r feddyginiaeth sydd wedi dod i mewn i'r ysgol/ anfon o'r ysgol. |

**Datganiad Staff**

Bydd gan yr holl staff fynediad i'r polisi hwn, y gellir ei ganfod yn y swyddfa neu ar wefan yr ysgol.

Dylai'r holl staff lofnodi isod i gadarnhau eu bod wedi ei ddarllen, ei ddeall ac y byddant yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

| Enw | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## 1. Cyflwyniad

### 1.1 Trosolwg

1.1.1 Mae hwn yn bolisi enghreifftiol a ddatblygwyd gan Wasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych yn unol â **Chanllaw Statudol** Llywodraeth Cymru: Cefnogi dysgwyr gydag anghenion gofal iechyd. Canllaw. Llywodraeth Cymru 215/2017 (http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy).

1.1.2 Mae'n rhaid darllen y polisi hwn gyda'r canllawiau statudol trosfwaol, y mae'n rhaid eu dilyn.

1.1.3 Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu roi sylw i'r canllawiau statudol hyn wrth gyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo lles y plant sy'n ddisgyblion yn y lleoliad addysg, gan gynnwys diwallu eu hanghenion gofal iechyd. Mae'r canllawiau hefyd yn berthnasol i weithgareddau sy'n cael eu cynnal oddi ar y safle fel rhan o weithgareddau addysgol arferol.

1.1.4 Drwy gydol y ddogfen hon cyfeirir at gynlluniau gofal iechyd. Mae dau fath:

| |
|---|
| ***a). Cynllun Gofal Iechyd Unigol yn yr Ysgol (CGIU):***<br>Mae'r cynllun hwn yn cael ei gyflwyno gan yr ysgol pan nodir fod gan ddisgybl anghenion gofal iechyd (gweler ffigur 1). Mae hwn yn gynllun ar gyfer gofalu am ddisgybl unigol yn yr ysgol, a gall gynnwys mewnbwn gan weithiwr iechyd proffesiynol a chynllun gofal iechyd meddygol.<br>***b). Cynllun Gofal Iechyd Meddygol:***<br>Mae hwn yn gynllun gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu gan weithiwr iechyd proffesiynol. |

### 1.2 Datganiadau polisi allweddol

1.2.1 Dylid cefnogi disgyblion gydag anghenion gofal iechyd yn briodol er mwyn iddynt gael mynediad llawn i addysg, gan gynnwys teithiau ac addysg gorfforol.

1.2.2 Os oes pryderon am weithrediad y polisi o ran diogelu, dylai'r ysgol ddilyn y gweithdrefnau diogelu, ac os oes angen, cymryd cyngor y Swyddog Diogelu Addysg neu Borth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

1.2.3 Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi disgyblion gydag anghenion gofal iechyd.

1.2.4 Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod staff lleoliad addysg yn ymgynghori â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol, disgyblion a rhieni/gofalwyr i sicrhau bod anghenion y disgybl gydag anghenion gofal iechyd yn cael eu deall a'u cefnogi'n effeithiol.

1.2.5 Gellir gofyn i unrhyw aelod staff o fewn y lleoliad addysg i ddarparu cymorth i ddisgyblion ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys cynorthwyo neu

oruchwylio weinyddu meddyginiaethau. Mae'r rôl hon yn hollol wirfoddol. Rhaid i aelodau staff dderbyn hyfforddiant ddigonol ac addas a chyrraedd y lefel angenrheidiol o gymhwysedd cyn iddynt gymryd y cyfrifoldeb. Ni ellir gofyn i unrhyw aelod o staff weinyddu neu oruchwylio meddyginiaeth oni bai ei fod yn rhan o'u cytundeb, telerau ac amodau neu gynllun swydd a gytunwyd ar y cyd (gweler tudalen 6 – 11, canllawiau cenedlaethol).

**Pan nad yw'r cynllun gofal iechyd meddygol, cynllun gofal iechyd unigol (CGIU) a /neu feddyginiaeth ar gyfer disgybl ar gael ar ddiwrnod penodol ac yn rhoi'r disgybl mewn perygl, bydd y pennaeth yn asesu'r risg ac mae gan y pennaeth yr hawl i wrthod derbyn y plentyn i'r ysgol nes bo cynllun gofal iechyd neu feddyginiaeth yn cael eu darparu yn unol â pholisi'r ysgol.**

***Fodd bynnag, ni ddylai hyn effeithio ar bresenoldeb y disgyblion. Mae'n rhaid i'r Ysgol, yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd ymgysylltu â'i gilydd cyn gynted â phosib.**

### 1.3 Deddfwriaeth a Chanllawiau

1.3.1 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r polisi hwn wedi'i dogfennu yn nogfen Cefnogi Dysgwyr gydag Anghenion Gofal Iechyd. Canllaw. Llywodraeth Cymru 215/2017 (http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy); tudalennau 3, 4, 5, 27, 28, 29, 30 a 31; y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw.

1.3.2 Yn ogystal â hyn, cyfeiriwyd at y canllawiau a'r polisïau canlynol:

- Canllawiau ar y defnydd o anadlydd salbutamol mewn argyfwng mewn ysgolion yng Nghymru. Canllaw. Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif 015/2014 (http://learning.gov.wales/resources/browse-all/use-of-emergency-salbutamol-inhalers-in-schools-in-wales/?skip=1&lang=cy)
- Canllaw ar ddefnydd chwistrellydd awtomatig adrenalin mewn ysgolion yng Nghymru https://hwb.gov.wales/mae-gwybodaeth-dysgu-cymru-wedi-symud/?docs/learningwales/publications/171025-guidance-on-the-use-of-emergency-aais-en.pdf Model Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant i'w ddefnyddio yn Ysgolion Sir Ddinbych (https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswyliwr/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/diogelu.aspx)
- Polisi Gofal Personol a mynd i'r Toiled ar gyfer Ysgolion Sir Ddinbych https://www.denbighshire.gov.uk/cy/gweithiwr/gwybodaeth-i-weithwyr-ysgol/intimate-care-and-toileting/gofal-personol-a-mynd-ir-toiled.aspx

**1.4 Ffurfio'r polisi hwn** Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng Cyngor Sir Ddinbych, cynrychiolwyr ysgolion (penaethiaid, Cydlynwyr AAA, llywodraethwyr), undebau, nyrsys ysgol a phartneriaid eraill ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Casglwyd, dadansoddwyd ac ystyriwyd y safbwyntiau o'r ymarfer ymgynghori wrth ffurfio'r polisi hwn. Adolygwyd y polisi hwn yn 2019.

## 2. Rolau a chyfrifoldebau

2.1.1 Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd llywodraethu wedi ystyried y pwyntiau canlynol wrth ddatblygu'r polisi hwn a'i weithdrefnau:

- Dylai'r staff ddeall a gweithio o fewn egwyddorion cynhwysiant.
- Dylid dylunio gwersi a gweithgareddau mewn modd sy'n caniatáu i'r rhai sydd ag anghenion gofal iechyd i gyfranogi'n llwyr.
- Dylai'r staff ddeall eu rôl i gefnogi disgyblion gydag anghenion gofal iechyd a dylid darparu hyfforddiant priodol.
- Dylai'r staff deimlo'n hyderus eu bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng gofal iechyd.
- Dylai'r staff fod yn ymwybodol o anghenion eu disgyblion drwy rannu anghenion gofal iechyd disgybl unigol yn briodol a chyfreithlon.
- Pryd bynnag y bo'n briodol, dylid annog disgyblion a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb i reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain.

2.1.2 Mae tudalennau 6-11 o'r canllaw statudol yn cyfeirio at yr isafswm o ran safonau o *arfer disgwyliedig* ar gyfer y canlynol. Mae'n rhaid dilyn y rhain yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.

- Awdurdodau lleol;
- Cyrff Llywodraethu ;
- Penaethiaid;
- Athrawon a staff cefnogi;
- Disgyblion a rhieni/gofalwyr;
- Gwasanaethau nyrsio iechyd ysgolion GIG Cymru, sefydliadau'r trydydd sector a gwasanaethau arbenigol eraill.

2.1.3 Yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn, yr unigolion â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli anghenion gofal iechyd yw:

| | |
|---|---|
| Aelod arweiniol o staff ar gyfer rheoli anghenion gofal iechyd | Ffion Jones |
| Protocol yn absenoldeb yr unigolyn hwn | Sian Griffiths |

2.1.4 Bydd yr holl staff a llywodraethwyr yn ymwybodol o ganllawiau ymarfer annerbyniol fel yr amlinellwyd yn y Canllawiau Cenedlaethol (a nodwyd yn atodiad 8), ac mae'n rhaid osgoi'r arferion hyn.

## 3. Yswiriant

3.1 Mae'r ysgol hon, drwy fabwysiadu model polisi'r sir / canllawiau cenedlaethol felly'n cael ei gynnwys yn nhrefniadau yswiriant yr awdurdod lleol mewn perthynas â rheoli anghenion gofal iechyd disgyblion.

## 4. Camau i'w cymryd pan fydd gan ddisgybl angen gofal iechyd – Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol (CGIU)

### 4.1 Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol

4.1.1 Pan fo anghenion gofal iechyd yn gymhleth, newidiol, hir dymor neu pan fo risg uchel y bydd angen ymyrraeth mewn argyfwng, bydd angen cynllun gofal iechyd unigol (CGIU). Efallai y bydd angen CGIU hyd yn oed os yw cyflwr meddygol yn cael ei reoli'n dda fel arfer.

4.1.2 Fodd bynnag, ni fydd yr holl ddisgyblion gydag anghenion gofal iechyd angen CGIU ac mae gennym broses ar waith (gweler ffigwr 1) i benderfynu pa ymyraethau yw'r rhai mwyaf priodol.

4.1.3 Yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â salwch byr dymor megis rhai sydd angen cwrs o wrthfiotigau, efallai na fydd angen CGIU manwl. Mewn amgylchiadau o'r fath efallai y bydd yn ddigonol llenwi'r ffurflen yn atodiad 2 yn unig.

**4.2 Datblygiad yr CGIU**

4.2.1 Mae CGIU yn nodi pa gefnogaeth y mae'r disgybl ei hangen. Nid oes angen iddo fod yn hir na chymhleth. Pan fo gan ddisgybl anghenion gofal iechyd parhaus neu gyfnodol, efallai y bydd angen CGIU.

4.2.2 Os yw anghenion gofal iechyd disgyblion yn gymhleth a'u bod yn newid lleoliadau, yna byddwn yn dechrau paratoi yn gynnar er mwyn sicrhau bod CGIU ar waith ar ddechrau'r tymor newydd.

4.2.3 Os oes angen unrhyw feddyginiaeth fel rhan o'r CGIU, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen ganiatâd ar gyfer meddyginiaeth yn atodiad 2 hefyd.

4.2.4 Mae ffigwr 1 yn amlinellu'r broses ar gyfer nodi a oes angen CGIU.

4.2.5 Mewn rhai achosion e.e. gwrthfiotigau byrdymor; ar ddiwedd cam 2 'casglu gwybodaeth' efallai y bydd yn amlwg nad oes angen CGIU. Yn yr achos hwn ni fydd angen symud ymlaen i gam 3 a 4.

**Cam 1: Nodi disgyblion gydag anghenion gofal iechyd:**

- Disgybl yn cael ei nodi o'r ffurflen gofrestru neu ddull arall (neu ffurflen flynyddol i gasglu data am ddisgyblion)*.
- Rhiant / gofalwr neu ddisgybl yn hysbysu'r ysgol bod anghenion gofal iechyd neu newid mewn anghenion gofal iechyd.
- Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.
- Cynhelir trafodaethau pontio yn brydlon e.e. 8 wythnos cyn naill ai diwedd y tymor neu cyn symud i sefydliad addysgol newydd.

↓

**Cam 2: Casglu Gwybodaeth:**

- Os oes angen posibl ar gyfer CGIU; dylai'r ysgol drafod hyn gyda'r rhiant / gofalwr a'r disgybl ei hunan. Mae'n rhaid gwneud hyn lle bo'n briodol mewn cydweithrediad â'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol perthnasol. Bydd hyn yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniad i nodi a oes angen CGIU.

↓

**Cam 3: Penderfynu a oes angen llunio CGIU:**

- Dylai'r pennaeth neu unigolyn dynodedig drefnu cyfarfod gyda staff priodol, rhieni/gofalwyr, y disgybl, a chlinigwyr priodol i benderfynu os yw anghenion gofal iechyd y disgybl yn gofyn am CGIU, neu a fyddai hyn yn amhriodol neu'n anghymesur. Os oes mater cynhennus gyda'r rhiant / gofalwr, yna bydd y pennaeth yn gwneud y penderfyniad ynglŷn â sut i symud ymlaen; y mae modd ei herio drwy'r weithdrefn gwynion.

↓

**Cam 4: Os oes angen CGIU:**

- Dylai'r pennaeth neu'r unigolyn dynodedig, o dan arweiniad y gweithwyr gofal iechyd priodol, rhieni/gofalwyr a'r disgybl ddatblygu'r CGIU mewn partneriaeth. Mae hyn yn cynnwys llunio, cydlynu, hwyluso cyfarfodydd, dogfennaeth a chyfathrebu cyffredinol yn yr ysgol.
- Y pennaeth neu'r unigolyn dynodedig i hwyluso asesiadau risg gofynnol ac ymyraethau i sicrhau diogelwch y plentyn.
- Bydd y pennaeth neu'r unigolyn dynodedig yn nodi'r staff priodol i gefnogi'r disgybl gan gynnwys nodi unrhyw anghenion hyfforddiant a ffynhonnell yr hyfforddiant.
- Bydd y pennaeth neu'r unigolyn dynodedig yn gwneud trefniadau ar gyfer hyfforddiant gan arbenigwyr perthnasol a chymwys.
- Bydd y pennaeth neu'r unigolyn dynodedig yn cylchredeg yr CGIU ac unrhyw ddiweddariadau i'r: rhieni/gofalwr, pennaeth, athro dosbarth/ cydlynwyr AAA (fel y bo'n briodol), a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. DS: mae'n rhaid derbyn caniatâd gan y rhiant/gofalwr a'r disgybl i wneud hyn.
- Bydd y pennaeth neu'r unigolyn dynodedig yn gosod dyddiad adolygu priodol ac yn diffinio unrhyw elfennau eraill a allai arwain at adolygiad, adran 5.

Addaswyd o : Cefnogi dysgwyr gydag anghenion gofal iechyd. Canllaw. Llywodraeth Cymru 215/2017.

***Ffigur 1-y broses ar gyfer nodi a oes angen CGIU.***

****Sut yr ydym yn casglu gwybodaeth am anghenion gofal iechyd disgyblion****

*Mae ein ffurflen derbyniadau ysgol yn cynnwys cwestiynau am anghenion iechyd disgybl. Mae hefyd yn cynnwys datganiad y bydd rhiant/gofalwr yn hysbysu'r ysgol ynglŷn ag unrhyw newidiadau i anghenion gofal iechyd presennol a newydd y plentyn.*

*Mae ein ffurflen i gasglu data blynyddol am y disgyblion yn cynnwys cwestiynau am anghenion gofal iechyd, ynghyd â datganiad y bydd y rhiant/gofalwr yn hysbysu'r ysgol os oes unrhyw newidiadau yn ystod blwyddyn yr ysgol.*

*Ar ôl casglu'r data blynyddol byddwn yn cyflawni gwiriadau i sicrhau bod CGIU ar waith neu fod y rhai presennol yn cael eu hadolygu a/neu ganiatâd meddyginiaeth ar gael.*

## 4.3 Cyfrifoldebau ar gyfer CGIU

4.3.1 Yn ein hysgol, mae'r **Pennaeth (Ffion Jones) neu'r Pennaeth Cynorthwyol (Sian Griffiths)** yn derbyn cyfrifoldeb gyffredinol dros *ddatblygu'r* CGIU (at ddibenion y polisi hwn mae'r term datblygu yn golygu llunio, cydlynu a hwyluso mewn cydweithrediad ag arbenigwyr iechyd perthnasol).

## 4.4 Datblygiad a chynnwys

4.4.1 Gall datblygiad CGIU manwl ar gyfer disgybl gynnwys y canlynol:

- y disgybl
- y rhieni/ gofalwyr.
- mewnbwn neu wybodaeth o'r lleoliad addysg blaenorol
- gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol
- gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol
- y pennaeth ac/neu'r unigolyn dynodedig sy'n gyfrifol am anghenion gofal iechyd ar draws y lleoliad
- athrawon a staff cefnogi , gan gynnwys staff arlwyo
- unrhyw unigolion gyda rolau perthnasol megis cydlynydd cymorth cyntaf, swyddog lles a Chydlynwyr AAA.

4.4.2 Bydd y rhai sy'n llunio'r CGIU yn cytuno ar arweinydd, ond cyfrifoldeb y lleoliad addysg yw sicrhau y caiff ei gadarnhau a'i weithredu.

4.4.3 Bydd yr CGIU yn cael ei ddatblygu gyda lles gorau'r disgybl mewn golwg a byddwn ni a'r gwasanaethau arbenigol (os oes angen), yn asesu'r peryglon i addysg, iechyd a lles cymdeithasol y disgybl.

4.4.4 Nod yr CGIU yw nodi'r camau sydd angen eu cymryd i gynorthwyo disgybl i reoli eu cyflwr ac i oresgyn unrhyw rwystrau posibl a allai eu hatal rhag cymryd rhan yn llawn mewn addysg.

4.4.5 Mae templed o CGIU yn atodiad 3.

4.4.6 Os yw gweithiwr iechyd perthnasol wedi darparu CGIU a'i fod yn ymdrin â'r holl agweddau a nodwyd yn yr CGIU enghreifftiol yn atodiad 3, nid oes angen CGIU ar wahân. Gall yr CGIU gyfeirio at ddogfennau eraill ac nid oes angen eu hailadrodd.

4.4.7 Fodd bynnag, os penderfynir bod angen CGIU ac nad yw wedi'i ddatblygu hyd yn hyn, byddwn yn llenwi'r CGIU yn atodiad 3 gyda'r disgybl, rhiant/ gofalwr a gweithiwr iechyd perthnasol. Efallai na fydd yn ofynnol llenwi'r holl adrannau yn y templed hwn. Mae sawl sefydliad trydydd sector wedi cynhyrchu templedi CGIU ar gyfer cyflwr penodol y gellir eu defnyddio e.e. Asthma UK https://www.asthma.org.uk/advice/child/manage/action-plan/ neu Diabetes UK https://www.diabetes.org.uk/Guide-to-diabetes/Your-child-and-diabetes/Schools/IHP-a-childs-individual-healthcare-plan/

4.4.8 Pan fydd gan ddisgybl anghenion addysg arbennig (AAA) bydd yr CGIU yn cael ei gysylltu neu ei atodi i unrhyw ddatganiad AAA / cynllun addysg unigol, neu gynllun dysgu a sgiliau (ôl-16). Efallai y bydd cynllun personol gogyfer â gadael mewn argyfwng ac asesiad risg yn cael eu hatodi hefyd.

**4.5 Cydlynu gwybodaeth gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y disgybl a rhieni/gofalwyr.**

4.5.1 Mae'r modd y byddwn yn rhannu anghenion gofal iechyd disgybl gyda gweithwyr gofal iechyd a chymdeithasol proffesiynol yn dibynnu ar eu gofynion a'r math o sefydliad addysgol. Bydd yr CGIU yn egluro sut y rhennir gwybodaeth a phwy fydd yn gwneud hyn. Gall yr unigolyn hwn fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer rhieni / gofalwyr a staff a bydd yn ymgysylltu ag asiantaethau allanol.

**4.6 Rôl y disgybl i reoli ei anghenion gofal iechyd ei hunan**

4.6.1 Bydd disgyblion sy'n gymwys* i wneud hynny'n cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain, gan gynnwys meddyginiaethau a gweithdrefnau. Dylid adlewyrchu hyn yn CGIU y disgybl.

**Gillick – pan fo'n bosib, dylid cefnogi'r dysgwr i fagu dealltwriaeth a hyder i reoli anghenion gofal iechyd eu hunain, yn dibynnu ar eu gallu i wneud hynny. Weithiau, gelwir hyn yn 'cymhwysedd Gillick'.*

4.6.2 Pan fo modd, caniateir i ddisgyblion gludo eu meddyginiaeth eu hunain a'u dyfeisiau perthnasol, neu'n gallu derbyn mynediad cyflym i'w meddyginiaeth. Efallai y bydd rhai disgyblion angen lefel briodol o oruchwyliaeth.

4.6.3 Os yw disgybl yn gwrthod dilyn eu CGIU neu gymryd eu meddyginiaeth neu gynnal gweithdrefn ofynnol, ni ddylai'r staff eu gorfodi i wneud hynny, ond dylid dilyn trefniadau'r sefydliad, a gytunwyd yn yr CGIU. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu cyn gynted â phosibl er mwyn gallu ystyried trefniant amgen ac fe geisir cyngor iechyd lle bo'n briodol.

**4.7 Mynediad i'r CGIU**

4.7.1 Dylai ei bod yn hawdd cael mynediad at yr CGIU gan bawb sydd angen atgyfeirio ato, tra'n cynnal y lefelau gofynnol o breifatrwydd.

4.7.2 Rydym yn storio CGIUau mewn lleoliad canolog ac yn sicrhau copi gyda'r oedolyn cyfrifol ar drip ysgol.

## 5. Adolygiad o anghenion gofal iechyd disgyblion.

**5.1 Cynllun Gofal Iechyd Unigol (CGIU)**

5.1.1 Bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod yr holl CGIUau yn cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn neu'n amlach os yw'r CGIU yn nodi hynny neu os ceir tystiolaeth newydd fod anghenion y disgybl wedi newid.

5.1.2 Yn yr adolygiad hwn byddwn yn cynnwys yr holl fudd-ddeiliaid allweddol lle bo'n briodol gan gynnwys – y disgybl, rhiant / gofalwr, gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol a chyrff perthnasol eraill. Tabl enghreifftiol yn atodiad 6.

### 5.2 Dim CGIU

5.2.1 Ar gyfer y disgyblion gydag anghenion gofal iechyd heb CGIU byddwn yn cynnal adolygiad bob tymor.

## 6. Rhannu a chofnodi gwybodaeth

6.1.1 Mae'r corff llywodraethu wedi sicrhau fod gennym drefniadau cyfathrebu clir ar waith mewn perthynas ag anghenion gofal iechyd y disgyblion. Mae'n rhaid gwneud hyn yn unol â Deddf GDPR/Diogelu Data 2018. (www.waspi.org).

6.1.2 Mae ein polisi rheoli anghenion gofal iechyd a'r polisi rhannu gwybodaeth ar gael i rieni /gofalwyr drwy wefan yr ysgol.

6.1.3 Er mwyn diogelu cyfrinachedd disgybl, byddwn yn trafod gyda'r disgybl a'r rhiant / gofalwr sut y gallwn rannu gwybodaeth am eu hanghenion gofal iechyd. Gofynnir i rieni / gofalwyr lofnodi ffurflen ganiatâd sy'n nodi'r cyrff, unigolion a'r dulliau ar gyfer rhannu gwybodaeth feddygol y disgybl (atodiad 2 a 3). Oherwydd bod rhannu gwybodaeth feddygol yn fater sensitif, byddwn yn cynnwys y disgyblion mewn unrhyw benderfyniadau fel y bo'n briodol.

6.1.4 Byddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth i sicrhau bod athrawon, athrawon llanw, unrhyw staff cefnogi a staff dros dro yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd y disgyblion, gan gynnwys CGIUau, yn enwedig os oes posibilrwydd y bydd argyfwng yn codi. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau i anghenion gofal iechyd, CGIUau a meddyginiaethau. Mae'n rhaid i rannu a storio gwybodaeth gydymffurfio â'r Deddf GDPR/Diogelu Data 2018 (http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted) ac ni ddylai dorri hawliau preifatrwydd na'r ddyletswydd gyfrinachedd sy'n ddyledus i'r unigolion. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy:

Rydym yn defnyddio cyfarfodydd staff i gynorthwyo i sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd disgyblion y mae ganddynt neu y gallant gael cysylltiad â nhw. Rydym yn arddangos y wybodaeth mewn modd addas ond heb fod yn ymwthiol, e.e. rydym yn defnyddio hysbysfwrdd yn yr ystafell athrawon i arddangos gwybodaeth ynglŷn â disgyblion gydag anghenion iechyd risg uchel, staff cymorth cyntaf a thystysgrifau, gweithdrefnau mewn argyfwng ac ati.

6.1.5 Byddwn yn sicrhau bod ein disgyblion (neu eu ffrindiau) yn gwybod pwy i siarad â nhw os ydynt yn teimlo'n sâl, angen cefnogaeth neu newidiadau i'w cefnogi.

6.1.6 Byddwn yn gwrando ar bryderon disgyblion (neu eu ffrindiau) os ydynt yn teimlo'n sâl ar **unrhyw** bwynt ac yn ystyried yr angen am gymorth meddygol (yn enwedig os adroddir anawsterau anadlu).

6.1.7 Os ydi disgybl yn dweud eu bod yn teimlo'n sâl, dylai pob aelod priodol o staff fod yn ymwybodol; e.e. mae disgybl wedi cael pwl o asthma yn y bore, dylai'r staff sy'n gweld y disgybl yn hwyrach yn y dydd fod yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o ddirywiad/salwch pellach. Gallai hyn gynnwys staff nad ydynt yn athrawon, megis staff amser cinio neu staff y dderbynfa, pan fo'n briodol.

6.1.8 Pan fo disgyblion yn cael eu lleoli gyda gwasanaethau eraill ar gyfer yr holl / rhywfaint o'r amser (e.e. uned cyfeirio disgyblion, darpariaeth addysg chweched dosbarth neu ddarpariaeth ag adnoddau) byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth anghenion gofal iechyd priodol yn cael ei rhannu yn unol â'n polisi rhannu gwybodaeth a gyda chaniatâd y rhiant/gofalwr a'r disgybl.

6.1.9 Byddwn yn cadw rhestr o pa wybodaeth sydd wedi'i rannu gyda phwy a pham, er mwyn i'r disgybl neu riant/ofalwr ei weld ar gais. Gellir cael mynediad i'r rhestr drwy edrych ar CGIU y disgybl a grëwyd gan yr ysgol a /neu'r ffurflen ar gyfer caniatâd meddygol (atodiad 2 a 3).

## 7. Cadw Cofnodion

7.1.1Rydym yn cadw cofnodion yn cynnwys systemau lle bo cofnodion anghenion gofal iechyd y disgybl wedi'u rhoi ar gyfrifiadur er mwyn caniatáu mynediad cyflym a hawdd i'r staff priodol. Gall systemau data ganiatáu mynediad hawdd i'r wybodaeth ofynnol ar gyfer staff sy'n cael eu lleoli mewn ystafelloedd dosbarth lle nad ydynt yn gyfarwydd ag anghenion gofal iechyd y disgyblion

7.1.2 Bydd gwaith papur newydd yn cael ei lenwi pan fo newidiadau i CGIU, meddyginiaeth neu ddos. Byddwn yn sicrhau bod yr hen ffurflenni'n cael eu marcio'n glir fel rhai nad ydynt yn berthnasol bellach ac yn eu storio yn unol â Polisi cadw gwybodaeth Sir Ddinbych.

7.1.3 Bydd gweinyddu'r holl feddyginiaethau yn cael ei gofnodi'n ffurfiol gan ddefnyddio atodiad 5. Mae hyn yn cynnwys: meddyginiaeth mewn argyfwng, meddyginiaeth nad ydyw ar bresgripsiwn (ee paracetomol) a chyffuriau a reolir.

## 8. Cyfathrebu â rhieni/gofalwyr

8.1.1 Rydym yn cyfathrebu gyda rhieni ar yr un diwrnod ac mae'r rhiant yn cael copi ysgrifenedig.

## 9. Creu amgylchedd dysgu hygyrch

### 9.1 Hygyrchedd

9.1.1 Bydd yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu yn sicrhau bod ein hysgol yn gynhwysol ac mor hygyrch â phosibl ar gyfer disgyblion gydag anghenion gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys y canlynol (gweler tudalennau 11--13); mae'n rhaid dilyn hyn:

- Mynediad ffisegol i adeiladau lleoliad addysg (cyfrifoldeb pennaf yr awdurdod lleol yw hyn);
- Addasiadau rhesymol – ategolion / offer/ gwasanaethau (mae hwn yn gyfrifoldeb pennaf i'r corff llywodraethu a'r ysgol);
- Bydd y corff llywodraethu / ysgolion yn sicrhau bod offer o'r fath yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol;
- Teithiau dydd ac ymweliad preswyl ( cyfrifoldeb pennaf y corff llywodraethu a'r ysgol yw hyn);
- Rhyngweithio cymdeithasol (cyfrifoldeb pennaf y corff llywodraethu a'r ysgol);
- Ymarfer corff a gweithgarwch corfforol (cyfrifoldeb pennaf yr ysgol);
- Rheoli bwyd (cyfrifoldeb pennaf yr ysgol);
- Asesiadau risg (cyfrifoldeb pennaf yr ysgol);

**9.2 Cymwysterau, arholiadau ac asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol**
***(t18 Canllaw LlC) -*** *Mae'n rhaid dilyn y rhain yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.*

9.2.1 Mae hyn wedi'i nodi ar dudalen 18 o ganllaw LlC, fodd bynnag mae gennym ddogfen ar wahân yn disgrifio'r trefniadau yn yr achos hwn.

9.2.2 Mae'n ymarfer annerbyniol gofyn am addasiadau neu amser ychwanegol yn ddiweddarach. Bydd angen gwneud cais mewn da bryd. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i arholiadau ffug neu brofion eraill hefyd.

**9.3 Addysg ac eithrio addysg ysgol (AEAY)**
***(t19-20 Canllaw LlC) -*** *Mae'n rhaid dilyn y rhain yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.*

9.3.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion oedran ysgol gorfodol sydd ddim yn mynychu lleoliad addysg y brif ffrwd am unrhyw gyfnod, oherwydd eu hanghenion gofal iechyd.

9.3.2 Yn achos absenoldeb byr o'r ysgol (llai na 15 diwrnod), byddwn yn darparu gwaith i'w wneud gartref, os yw cyflwr y disgybl yn caniatáu hynny, ac yn cefnogi'r disgybl i ddal i fyny pan fyddant yn dychwelyd.

9.3.3 Os bydd disgybl yn absennol am fwy na 15 diwrnod (olynol neu gronnol) byddwn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod anghenion y disgybl yn cael eu diwallu.

**9.4 Integreiddio**
***(t20-21 Canllaw LlC) -*** *Mae'n rhaid dilyn y rhain yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.*

9.4.1 Mae gennym rôl allweddol i sicrhau integreiddiad llwyddiannus ar ôl diagnosis neu ailintegreiddiad disgyblion gydag anghenion gofal iechyd. Byddwn yn rhagweithiol ac yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a'r awdurdod lleol fel y bo'n briodol, ynghyd â'r disgyblion eraill yn ystod y cyfnod pontio. Byddwn yn hyfforddi staff yn brydlon i gynorthwyo'r

disgyblion i ddychwelyd. Bydd y gefnogaeth yn cael ei hystyried gan bartïon allweddol gan gynnwys y disgybl a rhiant/ gofalwr, a bydd yn cael ei adlewyrchu yn CGIU y disgybl.

9.4.2 Pan fydd disgybl yn cael ei ryddhau o ysbyty dylid bydd gwybodaeth briodol yn cael ei ddarparu i rieni/gofalwyr a dylid ei rhannu gyda ni. Byddwn yn gweithio gyda'r rhiant / gofalwr a'r ysbyty i reoli dychweliad y disgybl.

9.4.3 Byddwn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddal i fyny gyda'r disgybl ar ôl ail-integreiddio.

### 9.5 Cludiant Ysgol

9.5.1 Ar gyfer cludiant ysgol mewn perthynas â disgyblion gydag anghenion gofal iechyd byddwn yn dilyn polisi cludiant ysgol yr awdurdod lleol.

9.5.2 Rhoddir ystyriaeth i gludiant meddyginiaeth ar sail achosion unigol.

## 10. Gweithdrefnau Mewn Argyfwng

10.1.1 Mae gennym bolisi ar waith i ddelio â sefyllfaoedd o argyfwng. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r unigolyn sy'n gyfrifol am y polisi hwn, pwy yw ein staff cymorth cyntaf a sut i ddelio ag anghenion gofal iechyd cyffredin.

10.1.2 Mewn amgylchiadau sydd angen cymorth brys byddwn yn ffonio 999.

10.1.3 Bydd lleoliad cofnodion gofal iechyd disgyblion a manylion cyswllt mewn argyfwng yn hysbys i staff.

10.1.4 Bydd disgyblion eraill yn ein hysgol yn cael gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng h.y. rhoi gwybod i aelod o staff ar unwaith.

10.1.5 Os oes angen mynd â disgybl i'r ysbyty, bydd aelod o staff yn mynd gyda nhw bob tro a byddant yn aros gyda nhw hyd nes y bydd rhiant/gofalwr yn cyrraedd. Mae hyn yn cynnwys eu hebrwng yn yr ambiwlans i'r ysbyty. Bydd yr aelod o staff yn mynd â'r gwaith papur priodol gyda nhw.

## 11. Dyraniad staff a hyfforddiant

11.1.1Bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod staff sy'n gwirfoddoli neu ar gontract i reoli anghenion gofal iechyd y disgyblion yn cael mynediad i'r hyfforddiant a'r canllawiau priodol.

11.1.2Bydd yr hyfforddiant yn ddigonol i sicrhau bod staff yn gymwys, gyda hyder yn eu gallu i gefnogi disgyblion a chyflawni gofynion yr CGIU.

11.1.3Bydd yr hyfforddiant yn drylwyr i sicrhau bod digon o staff yn gymwys i gefnogi anghenion gofal iechyd disgybl e.e. pe bai'r aelod arferol o staff yn absennol.

11.1.4Gall hyfforddiant gynnwys mewnbwn gan y disgybl a'i rieni/gofalwyr, ond ni fyddant byth yn cael eu defnyddio fel unig ddarparwyr yr hyfforddiant.

11.1.5Os oes gan ddisgybl anghenion gofal iechyd cymhleth, byddwn yn ceisio mewnbwn a chyngor gan nyrs yr ysgol / nyrs arbenigol / gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a'r awdurdod lleol mewn perthynas â hyfforddiant a chefnogaeth i staff. NODER: anogir ysgolion i drefnu hyfforddiant gan nyrs arbenigol fesul clwstwr lle bo modd.

11.1.6Bydd yr holl staff yn cael eu hysbysu o'n Polisi Rheoli Anghenion Gofal Iechyd, cyflyrau cyffredin (i sicrhau eu bod yn gallu adnabod symptomau a deall ble i geisio cymorth priodol) a rolau staff wrth gyflawni trefniadau gofal iechyd. Bydd staff yn derbyn hyfforddiant ar y cyflyrau meddygol mwyaf cyffredin.

11.1.7Bydd staff newydd a staff dros dro yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r mesurau ataliol a brys sydd ar waith er mwyn iddynt allu adnabod pryd y mae angen ymyrraeth a gweithredu'n gyflym.

11.1.8Bydd symudiad staff hyfforddedig bob amser yn cyd-fynd â'r disgyblion y maent yn eu cefnogi.

11.1.9 Os na fydd staff hyfforddedig sydd fel arfer yn gyfrifol am weinyddu meddyginiaeth ar gael byddwn yn cysylltu a'r rhieni a'r Sir ar unwaith.

11.2.0Gofynnir i'r holl staff lofnodi'r polisi hwn i gadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac y byddant yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

11.2.1Bydd cofnodion hyfforddiant yn cael eu cynnal, atodiad 4.

## 12. Teithiau dydd, ymweliadau preswyl a lleoliadau gwaith

12.1.1 Yn unol â'r dyletswyddau statudol, mae'r corff llywodraethu yn cefnogi'r holl ddisgyblion gydag anghenion gofal iechyd i gymryd rhan mewn teithiau ac ymweliadau.

12.1.2 Dylai'r polisi rheoli anghenion gofal iechyd a'r holl atodiadau fod yn gymwys i'r teithiau ysgol mewn rhyw fodd fel y byddai o fewn yr ysgol, mae hyn yn cynnwys adran 13.17 sy'n sôn am feddyginiaeth nad ydynt ar bresgripsiwn.

12.1.3 Byddwn yn cysylltu â rhieni/gofalwyr ymlaen llaw drwy gyfarfod / llythyr fel y bo'n briodol i'w cynghori ynglŷn â chynllunio anghenion gofal iechyd / meddyginiaeth eu plentyn ar gyfer y daith/ ymweliad.

12.1.4 Bydd pob aelod o staff sy'n cefnogi'r daith/ymweliad, gan gynnwys staff sy'n cael eu cyflogi gan Ddarparwr Annibynnol sy'n darparu'r gweithgaredd yn ystod y daith/ymweliad yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd y disgybl, gydag ystyriaeth i Ddeddf GDPR/Diogelu Data 2018, a pharchu hawl y disgybl i breifatrwydd. Byddant yn derbyn y wybodaeth ofynnol i sicrhau bod staff yn gallu darparu profiad cyfartal i'r disgybl. Efallai bydd y

wybodaeth hon yn cynnwys materion iechyd a diogelwch, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gefnogaeth ychwanegol, gan gynnwys meddyginiaeth ac offer angenrheidiol.

12.1.5 Yn ystod taith/ymweliad, bydd unrhyw feddyginiaeth sydd ei hangen ar ddisgybl yn cael ei chludo gan yr aelod o staff gyda hyfforddiant perthnasol neu gan y ddisgybl sy'n gallu hunan-weinyddu, os ydynt yn gymwys i wneud hynny.

12.1.6 Bydd disgyblion sydd o bosib angen eu meddyginiaeth yn cael eu rhoi mewn grŵp sy'n cynnwys yr aelod hyfforddedig o staff sy'n cludo'r feddyginiaeth lle bo modd.

12.1.7 Os yw plentyn yn cyrraedd i fynd ar daith heb eu meddyginiaeth neu heb ddigon o feddyginiaeth yn unol â'r polisi hwn yna byddwn yn cysylltu â'r rhieni / gofalwr i ofyn iddynt ddod â'r feddyginiaeth i'r ysgol. Os nad yw hyn yn bosibl, yna bydd yn rhaid i ni ystyried a yw'n ddiogel i'r plentyn fynychu'r daith / ymweliad e.e. a yw'r feddyginiaeth ar gyfer argyfyngau, rheoli bywyd. Bydd y pennaeth / unigolyn dynodedig yn penderfynu a yw'n ddiogel i'r disgybl fynychu'r daith.

12.1.8 Os yw disgybl yn teimlo'n sâl ar y daith byddwn yn cysylltu a'r rhieni neu pobl priodol e.e ambiwlans os oes angen.

12.1.9 Pan mae disgybl yn cymryd rhan mewn profiad neu leoliad gwaith, neu debyg, bydd cymeradwyaeth ar gefnogaeth gofal iechyd addas, a bydd hyn yn cael ei weithredu.

## 13. Meddyginiaeth

***Noder : pan fydd meddyginiaeth yn cael ei roi ar bresgripsiwn i'w gymryd ar adegau sy'n caniatáu gweinyddu'r feddyginiaeth yn y cartref, dylai rhieni/gofalwyr geisio gwneud hynny e.e. cyn ac ar ôl ysgol ac yn y gyda'r nos. Bydd achosion lle na fydd hyn yn briodol.***

***Noder: ni ddylid rhoi asbirin na'i ddeilliadau i blant o dan 16 oed oni bai y caiff ei roi ar bresgripsiwn.***

### 13.1 Cyflenwad o feddyginiaeth / dyfeisiau.

13.1.1 Ni fyddwn yn cadw cyflenwad dros ben o feddyginiaeth yn yr ysgol, fel y nodir ar y ffurflen ganiatâd. Yr eithriad i hyn yw pan fo er lles gorau'r plentyn.

13.1.2 Ni fyddwn byth yn derbyn unrhyw feddyginiaethau sydd wedi'u tynnu o'r cynhwysydd/paced gwreiddiol. Dylai'r feddyginiaeth fod yn y cynhwysydd/paced gwreiddiol, wedi'i labelu gydag enw'r disgybl, enw'r feddyginiaeth, dos ac amlder, a dyddiad dod i ben. Ni fydd staff yn trosglwyddo meddyginiaeth o'i gynhwysydd gwreiddiol, oni bai bod y

cynhwysydd yn malu, byddwn yn hysbysu'r rhiant / gofalwr ac fe gymerir camau priodol.

13.1.3 Rydym yn derbyn meddyginiaeth yn y cyflwr canlynol yn unig, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol:

Mae'n rhaid i feddyginiaeth:

a. O fewn dyddiad.
b. Nodi'r cynnwys yn gywir a chynnwys label clir.
c. Fod wedi'i labelu gydag enw'r disgybl.
d. Gynnwys cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer gweinyddu, dos, amlder a storio.
e. Fod yn ei gynhwysydd gwreiddiol / pecyn gwreiddiol fel y'i rhoddwyd gan y fferyllydd (ag eithrio inswlin sydd fel arfer ar gael mewn pin neu bwmp inswlin) Mae'n rhaid i anadlwyr asthma ac ategolion gynnwys y label ar yr anadlydd)

### 13.2 Derbyn / dychwelyd meddyginiaethau (gan gynnwys eu cludo i'r ysgol)

13.2.1 Cyfrifoldeb y rhiant / gofalwr yw cludo meddyginiaeth y plentyn i'r ysgol.

13.2.2 Byddwn yn trafod gyda'r rhieni /gofalwyr ynglŷn â sut i gludo'r feddyginiaeth i'r ysgol a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu ar y ffurflen ganiatâd (atodiad 2).

13.2.3 Bydd meddyginiaeth yn cael ei ddychwelyd i'r rhiant / gofalwr yn bersonol yn unig.

13.2.4 Ysgolion Uwchradd: Efallai y gall plant hŷn gludo/gweinyddu eu meddyginiaeth eu hunan, fodd bynnag mae'n rhaid derbyn caniatâd rhieni/gofalwyr yn gyntaf.

### 13.3 Storio

13.3.1 Cyfrifoldeb y Pennaeth / unigolyn dynodedig yw sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel yn yr ysgol.

13.3.2 Bydd y pennaeth / unigolyn dynodedig yn sicrhau bod y risgiau iechyd sy'n deillio o feddyginiaethau yn cael eu rheoli yn unol â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 (COSHH).

13.3.3 Bydd y pennaeth / unigolyn dynodedig yn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel a phriodol.

***Tabl 1 – storio meddyginiaethau (gan gynnwys cyffuriau a reolir)***

*Noder: Ni fyddwn byth yn storio meddyginiaeth mewn blwch cymorth cyntaf.*

| Math o feddyginiaeth | Lleoliad. |
|---|---|
| Meddyginiaeth nad ydyw'n frys | • Bydd yr holl feddyginiaeth nad yw'n frys yn cael ei gadw mewn man diogel gyda rheolyddion tymheredd neu olau priodol.<br>• Os yw'n **gyffur a reolir,** cynghorir mesurau a rheolyddion diogelwch ychwanegol. |
| | Lleoliad(au)= ystafell staff |
| Meddyginiaethau yn yr oergell | • Mae angen cadw rhai meddyginiaethau yn yr oergell. Bydd angen monitro tymheredd yr oergell yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn unol â'r gofynion storio.<br>• Gellir cadw meddyginiaethau mewn oergell sy'n cynnwys bwyd, ond dylai fod mewn cynhwysydd tynn ac wedi'i labelu'n glir.<br>• Dylid ystyried oergell feddygol y gellir ei gloi os oes angen storio cyfansymiau mawr o feddyginiaethau. |
| | Lleoliad(au)= Darn Canol |
